

DATGANIAD O FESURAU ARBENNIG: BOTSWANA RHEOLIADAU'R FASNACH MEWN ANIFEILIAID A CHYNHYRCHION PERTHYNOL (CYMRU) 2011

Mae'r Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd, wedi dysgu bod presenoldeb fflw adar pathogenig iawn wedi'i gadarnhau yn Botswana, fel bod anifeiliaid a chynhyrchion sy'n tarddu o Botswana yn debygol o beri risg i iechyd pobl neu anifeiliaid.

O dan reoliad 29(1)) o Reoliadau'r Fasnach mewn Anifeiliaid a Chynhyrchion Perthynol (Cymru) 2011⁽¹⁾, mae Gweinidogion Cymru yn datgan y mesurau arbennig angenrheidiol canlynol yng Nghymru er mwyn atal y risg i iechyd pobl neu iechyd anifeiliaid:

Atal dros dro fynediad i anifeiliaid a chynhyrchion i Gymru

1. Mae'r anifeiliaid a'r cynhyrchion canlynol sy'n tarddu neu'n cael eu hanfon allan o Botswana wedi'u hatal dros dro rhag cael mynediad i Gymru:

- (a) ratidau sy'n ddofednod bridio neu'n ddofednod cynhyrchu;
- (b) cywion diwrnod oed o ratidau;
- (c) wyau deor, sy'n cael eu dodwy gan ratidau;
- (d) cig ratidau;
- (e) cynhyrchion cig sy'n deillio o brosesu cig ratidau neu o brosesu ymhellach y cynhyrchion hynny a brosesir, nad ydynt yn ddarostyngedig i driniaeth benodol B, C neu D fel y'u diffinnir yn Rhan 4 o Atodiad II i Benderfyniad y Comisiwn 2007/777/EC⁽²⁾;
- (f) sgil-gynhyrchion anifeiliaid heb eu prosesu sy'n cynnwys cyrff neu rannau o ddofednod neu gynhyrchion a geir o ddofednod;
- (g) cynhyrchion cyfansawdd sy'n cynnwys cynhyrchion cig sy'n deillio o brosesu cig ratidau neu o brosesu ymhellach y cynhyrchion hynny a brosesir, nad ydynt yn ddarostyngedig i driniaeth benodol B, C neu D fel y'u diffinnir yn Rhan 4 o Atodiad II i Benderfyniad y Comisiwn 2007/777/EC.

Dehongli

2. Ym mharagraff 1 o'r Datganiad hwn:

- (a) Mae i "dofednod" ("*poultry*"), "dofednod bridio" ("*breeding poultry*"), "dofednod cynhyrchu" ("*productive poultry*"), "cywion diwrnod oed" ("*day-old chicks*"), "wyau deor" ("*hatching eggs*") a "cig" ("*meat*") yr un ystyr ag yn Erthygl 2 o Reoliad y Comisiwn (EC) 798/2008⁽³⁾;

⁽¹⁾ O.S. 2011/2379 (Cy. 252). Amnewidiwyd rheoliad 29 gan O.S. 2020/44 (Cy. 5) ac fe'i diwygiwyd gan O.S. 2020/1612 (Cy. 337).

⁽²⁾ EUD 2007/777.

⁽³⁾ EUR 798/2008.

- (b) Mae i “cynhyrchion cig (“*meat products*”) yr un ystyr ag ym mharagraff 7.1 o Atodiad I i Reoliad (EC) 853/2004⁽⁴⁾;
- (c) Mae i “sgil-gynhyrchion anifeiliaid (“*animal by-products*”) yr un ystyr ag yn Erthygl 3 o Reoliad (EC) 1069/2009⁽⁵⁾;
- (d) Mae i “cynhyrchion cyfansawdd” (“*composite products*”) yr un ystyr ag yn Erthygl 2 o Benderfyniad y Comisiwn 2007/275/EC⁽⁶⁾

Eithriadau i'r ataliad dros dro

- 3. Nid yw paragraffau (1)(f) ac (g) o'r Datganiad hwn yn gymwys i:
 - (a) wyau penodedig heb bathogen o fewn ystyr Erthygl 2 o Reoliad y Comisiwn (EC) 798/2008; a
 - (b) wyau fel y'u diffinnir ym mharagraff 5.1 o Atodiad 1 i Reoliad (EC) 853/2004 neu gynhyrchion wyau fel y'u diffinnir ym mharagraff 7.3 o'r Atodiad hwnnw i'r Rheoliad hwnnw;

Hyd y mesurau arbennig

- 4. Daw'r Datganiad hwn i rym ar yr adeg a'r dyddiad y'i llofnodir
Amser a dyddiad a wnaed: 12:00 ar 30 Medi 2021

Llofnodwyd

Christianne Glossop, Prif Swyddog Milfeddygol Cymru

o dan awdurdod y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd, un o Weinidogion Cymru

Mae mewnforio anifeiliaid neu gynhyrchion sy'n groes i'r Datganiad hwn yn drosedd o dan reoliad 39 o Reoliadau'r Fasnach mewn Anifeiliaid a Chynhyrchion Perthynol (Cymru) 2011.

⁽⁴⁾ EUR 853/2004.

⁽⁵⁾ EUR 1069/2009.

⁽⁶⁾ EUD 2007/275.